# POLISI DIOGELU

**Cynnwys**


1. CYD-DESTUN A CHWMPAS.
2. NODAU.
3. CANLYNIADAU.
4 Diffiniadau.
5. SAFONAU AC EGWYDDORION.
   Cyfarwyddyd.
6. CYFRIFOLDEBAU RHEOLI.
   Categorïau o Gam-drin.
   Mathau eraill o gam-drin.
7. GOBLYGIADAU CORFFORAETHOL.
   Recriwtio a Fetio.
   Hyfforddiant i Weithwyr Gyrfa Cymru.
   Grwpiau/Unigolion Eraill sy'n gweithio gyda Gyrfa Cymru.
   Defnydd o Ffotograffau a Delweddau Digidol o Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl.
8. ADOLYGU'R POLISI.

## 1. CYD-DESTUN A CHWMPAS.

1.1 Mae Gyrfa Cymru yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i dderbyn cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig.

1.2 Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl sy'n defnyddio ei gwasanaethau. Mae gan bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl rôl i'w chwarae i ddiogelu a hybu eu lles. Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal diwylliant sy'n caniatáu i'w gweithwyr adnabod pryderon ac adrodd amdanynt.

1.3 Mae'r polisi wedi'i baratoi i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl yng Nghymru sydd angen gofal a chymorth. Ategir y ddeddfwriaeth hon gan ddeddfwriaeth berthnasol arall a nodir yn Atodiad 2.

1.4 Bydd Gyrfa Cymru yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau a geir yn nogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, yn ogystal â gweithdrefnau lleol a luniwyd gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru.

1.5 Mae'r polisi hwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i gyfrifoldeb Gyrfa Cymru mewn perthynas â'i dyletswydd o fewn y strategaeth Prevent o ran amddiffyn unigolion sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad ag eithafiaeth.

## 2. NODAU.

2.1 Nod cyffredinol y polisi hwn yw amddiffyn a hyrwyddo lles a llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl y mae gweithwyr Gyrfa Cymru yn dod i gysylltiad â nhw.

2.2 Mae gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau yn annerbyniol a bydd pawb sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr Gyrfa Cymru yn cael eu trin ag urddas a pharch, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Pholisi Urddas a Pharch Gyrfa Cymru.

2.3 Bydd y polisi hwn yn cefnogi gweithwyr Gyrfa Cymru i ddiogelu lles y plant, y bobl ifanc a'r oedolion y maent yn gweithio gyda nhw, ac i ddiogelu eu hunain rhag honiadau.

2.4 Mae'r polisi hwn yn annog gweithwyr i atgyfeirio unrhyw bryderon ynglŷn â diogelu at yr uwch-unigolyn (neu uwch-unigolion) diogelu dynodedig neu'r Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau. Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, cyfeirir gweithwyr at Bolisi Chwythu'r Chwiban Gyrfa Cymru.

## 3. CANLYNIADAU.

3.1 Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod y canlynol:

- Mae diogelu a lles ei cwsmeriaid yn hollbwysig ac yn cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill.

- Mae ganddi rwymedigaeth i hybu iechyd, diogelwch a llesiant ei gweithwyr ac mae ganddi gyfrifoldeb i sicrhau yr ymdrinnir â datgeliadau, honiadau neu bryderon diogelu mewn modd teg, cyson ac amserol, ac yn unol â chanllawiau statudol.
- Bydd pob mater sy'n ymwneud â diogelu ar-lein yn cael ei ymdrin yn yr un modd â rhyngweithio a chyswllt wyneb yn wyneb â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

3.2 Pan fydd Gyrfa Cymru yn derbyn datgeliad, honiad neu bryder diogelu sy'n ymwneud â chyflogai, ymdrinnir â hwn yn unol â Gweithdrefn Ddiogelu Gyrfa Cymru.

Bydd Gyrfa Cymru yn sicrhau bod cymorth, gwybodaeth a chyngor priodol ar gael i bawb yr effeithir arnynt yn ystod y broses hon. Bydd swyddog diogelu Dynodedig perthnasol yr awdurdod lleol yn rhoi cyngor a ba gamau i'w cymryd trwy gyfarwyddyd yr heddlu / gwasanaethau cymdeithasol. Cyn gynted â phosibl a heb ragfarnu ymchwiliad, dylid hysbysu'r aelod o staff o'r honiadau.

3.3 Bydd unrhyw gyflogai sy'n destun honiad (a'r chwythwr chwiban) yn cael mynediad at wasanaethau cymorth annibynnol os yw'n dymuno. Pan na chynhelir ymchwiliad, gall Gyrfa Cymru benderfynu cychwyn camau disgyblu.

3.4 Bydd Gyrfa Cymru yn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd gweithiwr yn cael ei ddiswyddo ar sail camymddwyn, neu'n ymddiswyddo mewn amgylchiadau a fyddai wedi arwain at ddiswyddiad.

## 4 Diffiniadau.

4.1 At ddiben y polisi hwn, mae'r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol:

- Mae'r term 'cyflogai' yn berthnasol i bob gweithiwr Gyrfa Cymru amser llawn a rhan-amser, parhaol neu dros dro, ac yng nghydestun y polisi hwn yn unig, mae hefyd yn cynnwys staff asiantaeth a'r rhai sydd ar leoliad gyda Gyrfa Cymru.
- Mae'r term 'gweithwyr perthnasol' yng nghydestun y polisi hwn yn unig, yn berthnasol i bob gweithiwr y disgwylir iddo ddod i gysylltiad â phobl ifanc neu oedolion heb oruchwyliaeth.
- Gweithgarwch a reoleiddir yw gweithgarwch sy'n cynnwys cyswllt perthnasol â phlant neu oedolion sydd o natur benodol a dwys ac sy'n digwydd yn aml (tri diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod) a thros nos.
- Cynrychiolwyr o asiantaethau busnes a chymunedol lleol yw 'gwirfoddolwyr' a nodir gan Gyrfa Cymru fel unigolion sy'n cefnogi gweithgareddau gyda phobl ifanc mewn canolfannau dysgu.

4.2 At ddiben y polisi hwn, mae'r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol:

- Plentyn neu unigolyn ifanc yw unrhyw un o dan 18 oed.
- Diffinnir plentyn neu unigolyn ifanc mewn perygl fel unigolyn o dan 18 oed sy'n cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu o brofi mathau eraill o niwed ac sydd ag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio).
- Diffinnir oedolyn mewn perygl fel unigolyn 18 oed a hŷn sy'n bodloni'r canlynol:
    - Yn cael neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
    - Gydag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio).

- O ganlyniad i'r anghenion hynny, heb fod â'r gallu i amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod na'r risg ohono.

4.3 Mae defnyddio'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes angen i'r gamdriniaeth neu esgeulustod ei hun ddigwydd cyn y dylid ystyried ymyrraeth gynnar a chymorth i warchod y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl er mwyn atal gwir gamdriniaeth ac esgeulustod.

4.4 Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wedi'i chynllunio i hyrwyddo a diogelu'r broses o wneud penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol, a chaiff ei selio ar bum egwyddor allweddol. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn ac yn grymuso pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain lle bynnag y bo modd ac mae'n berthnasol i bobl 16 oed a hŷn. Mae gan bob unigolyn sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun, a rhaid cymryd yn ganiataol bod y gallu ganddo i wneud hynny, oni bai y profir fel arall.

## 5. SAFONAU AC EGWYDDORION.

5.1 Mae'r polisi hwn yr un mor berthnasol i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl.

5.2 Mae gan Gyrfa Cymru 'God Ymddygiad – Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus' ar waith, y disgwylir i bob gweithiwr ei ddilyn. O dan y cod hwn, mae Gyrfa Cymru yn disgwyl i bob cyflogai amddiffyn y plant, y bobl ifanc a'r oedolion y mae'n gweithio gyda nhw drwy adrodd am bryderon yn brydlon. Bydd methiant i wneud hynny yn anweithred ar ran y cyflogai. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol awdurdodau lleol i adrodd am blant ac oedolion pan fo pryderon eu bod 'mewn perygl o niwed'.

5.3 Rhannu Gwybodaeth – Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol yn effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn hanfodol i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion.

- Ni ddylai gweithwyr warantu cyfrinachedd i unrhyw un sy'n datgelu camdriniaeth.
- Dylid nodi y gall barnwr neu ombwdsmon orchymyn datgeliad llawn mewn rhai amgylchiadau.
- Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd a gynhelir fel rhan o'r broses amddiffyn oedolion cytuno â datganiad cyfrinachedd y cyfarfod a chadw ato.

5.4 Am fanylion ar sut i rannu gwybodaeth mewn sefyllfa diogelu, gweler:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant (Gorffennaf 2019)

### Cyfarwyddyd.

5.5 Cyflwynir ein gwaith mewn lleoliadau dysgu yng nghyd-destun y canllawiau diweddaraf –

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg
Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg
Cadw dysgwyr yn ddiogel – Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002 (2022)

5.6 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith ym mhob lleoliad addysg a chyngor, gan gynnwys lleoliadau gyrfaoedd, gweithio o gartref ac allgymorth, a sicrhau bod ganddynt systemau diogelu effeithiol ar waith, a bod ganddynt drefniadau cadarn i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i asiantaethau sy'n cyflenwi staff i'r sector addysg a chynghori. Mae hyn yn cynnwys contractwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg neu gyngor, darparwyr addysg, a darparwyr hyfforddiant i'r rhai dan 18 oed (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, sefydliadau addysg bellach ac ysgolion annibynnol). Yn ogystal â hyn, mae'r polisi hefyd yn berthnasol i bartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon, sydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn cael cyfnodau penodol o brofiad ysgol ar gyfer hyfforddiant mewn ysgol.

## 6. CYFRIFOLDEBAU RHEOLI.

**(Darperir manylion pellach yn y** gweithdrefnau diogelu**)**

6.1 Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod mai cyfrifoldeb statudol Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yw llesiant plant ac oedolion mewn perygl.

6.2 Cyfrifoldeb y tîm uwch-reolwyr yw diogelu o fewn Gyrfa Cymru yn y pen draw.

6.3 Y Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau fydd yr uwch-swyddog dynodedig, a bydd yn arwain ar ran y tîm uwch-reolwyr a Bwrdd CCDG, gan gymryd cyfrifoldeb dros faterion diogelu.

6.4 Mae'r tîm uwch-reolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

6.5 Bydd rheolwyr tîm yn delio ag atgyfeiriadau uniongyrchol ac yn cynnwys eu rheolwr llinell yn y broses, fel y nodir yn y gweithdrefnau.

6.6 Disgwylir i holl gyflogeion Gyrfa Cymru fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'i gymhwyso'n ymarferol.

6.7 Mae'n ddyletswydd ar bawb i ymddwyn mewn modd sy'n diogelu ac yn hybu lles plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae hyn hefyd yn eu hamddiffyn rhag honiadau ffug a chamymddwyn.

6.8 Nid yw Gyrfa Cymru yn disgwyl i gyflogeion ddod yn arbenigwyr ar adnabod niwed, cam-drin ac esgeulustod. Dim ond enghreifftiau yw'r categorïau cam-drin a restrir. Dylai cyflogeion fod yn ymwybodol o'r diffiniadau o niwed yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru https://www.diogelu.cymru/cy/

### Categorïau o Gam-drin.

6.9 Mae'r canlynol yn rhestr anghyflawn o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau niwed, cam-drin ac esgeulustod y mae Gyrfa Cymru wedi'u nodi:

- **Cam-drin corfforol** yw'r defnydd bwriadol o rym corfforol a allai arwain at anaf corfforol, poen corfforol, neu nam. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd gofalwr yn ffugio neu'n achosi salwch mewn unigolyn y mae'n gofalu amdano. Mae hyn hefyd yn cynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod.

- Mae **cam-drin rhywiol** yn golygu gorfodi neu hudo plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol uniongyrchol neu anuniongyrchol y maent yn anfodlon eu gwneud, neu’n methu â rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth iddynt, neu nad ydynt yn eu deall yn llawn. Gallai'r gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol.
- **Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol** yw cam-driniaeth fwriadol, a pharhaus ar brydiau, o blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n arwain at ddioddefaint meddyliol. Gall gynnwys dweud wrth blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu eu bod ond yn cael eu gwerthfawrogi os ydynt yn diwallu anghenion unigolyn arall. Gall gynnwys gosod disgwyliadau amhriodol arnynt o ran eu hoed neu eu datblygiad. Gall beri iddynt deimlo’n ofnus neu mewn perygl yn aml – er enghraifft, trwy fod yn dyst i gam-drin domestig yn y cartref, neu gael eu bwlio, neu lygru neu gamfanteisio ar blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn. Mae peth lefel o gam-drin emosiynol yn perthyn i bob math o gam-drin plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.
- **Camdriniaeth ariannol neu faterol** yw unrhyw ladrad neu gamddefnydd o arian, eiddo neu adnoddau plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn. Gallai gynnwys gorfodaeth a/neu fygythiad a gallai gynnwys cyfyngu ar fynediad at arian neu adnoddau eraill, neu orfodi cyfrifoldeb ariannol ar y plentyn, yr unigolyn ifanc neu’r oedolyn gan rhywun sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, neu rhywun y disgwylir i blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn ymddiried ynddo.
- **Esgeulustod** yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy’n debygol o arwain at nam difrifol i’w hiechyd neu ddatblygiad. Gall olygu bod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, lloches a dillad digonol, methu â'u hamddiffyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethu â sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i'w hanghenion emosiynol sylfaenol. Yn ogystal â hyn, gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd oherwydd bod y fam yn camddefnyddio sylweddau.

## Mathau eraill o gam-drin.

6.10 Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl drwy hysbysu’r Gwasanaethau Cymdeithasol os nodir y canlynol yn ystod ei gwaith:

- **Gwahaniaethu a Throseddau Casineb**. Gall hyn fod yn nodwedd o unrhyw fath o gam-drin plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn, ond gall hefyd gael ei ysgogi oherwydd oedran, ailbennu rhywedd, rhywedd, hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred).
- **Cam-drin Domestig**. Gall hyn ddigwydd mewn perthnasoedd rhyngbersonol a gall gael effaith drawmatig, sydd weithiau'n bygwth bywyd, ar yr unigolyn ac eraill sy'n byw yn y cartref.
- **Priodas dan Orfod.** Diffinnir hyn fel priodas a gynhelir heb gydsyniad dilys y ddau barti, a lle mae rhyw fath o orfodaeth yn gysylltiedig.

6.11 O ran diogelu unigolion sydd mewn perygl o safbwyntiau eithafol, mae Gyrfa Cymru yn mabwysiadu’r un dull â diogelu mewn cyd-destunau eraill (gweler Atodiad 1). Ar gyfer diogelu sy’n ymwneud â safbwyntiau eithafol, dylai gweithwyr Gyrfa Cymru geisio cymorth gan y paneli Channel lle maent yn bodoli. Mae Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru wedi cyhoeddi Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Prevent Cymru Gyfan i greu un dull atgyfeirio sydd wedi’i ddiffinio’n glir ar draws yr holl awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn magu hyder pob awdurdod ac i liniaru yn erbyn unrhyw fygythiad a lleihau risg drwy ddiogelu’r rhai sydd angen cymorth.

6.12 Bydd Gyrfa Cymru yn ymgynghori â swyddog dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol os yw'n pryderu p'un a yw mater penodol yn bryder diogelu, fel y nodir yn y Gweithdrefnau Diogelu.

## 7. GOBLYGIADAU CORFFORAETHOL.

### Recriwtio a Fetio.

7.1 Mae gan Gyrfa Cymru Bolisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau fetio sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru (a gyhoeddir o bryd i'w gilydd), a bydd yn cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi penodi pobl anaddas i swyddi a fydd â chyswllt â phobl ifanc neu oedolion. Cyfeiriwch at y polisi uchod am fanylion pellach yn ymwneud â fetio a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

7.2 Mae Polisi Disgyblu ac Achwyn Gyrfa Cymru yn datgan y canlynol:

*Mewn rhai amgylchiadau, e.e diswyddiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, gallai'r diswyddiad ddod o dan y ddyletswydd statudol i adrodd am ymddygiad y gweithiwr i'r awdurdodau diogelu. Mewn achosion o'r fath, gall yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd hysbysu'r awdurdod diogelu am y mater, a bydd eu hymchwiliadau yn cael eu blaenoriaethu dros unrhyw ymchwiliad gan y cwmni.*

Mae gan Gyrfa Cymru hefyd ddyletswydd statudol i hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am y cyflogai a ddiswyddwyd. https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs

### Hyfforddiant i Weithwyr Gyrfa Cymru.

7.3 Bydd holl weithwyr Gyrfa Cymru y disgwylir iddynt ddod i gysylltiad â phobl ifanc ac oedolion heb oruchwyliaeth yn cael hyfforddiant priodol ar faterion diogelu, gan gynnwys arweiniad ar sut i adnabod arwyddion o gam-drin a sut i wneud adroddiad/atgyfeiriad. Cynhelir yr hyfforddiant hwn ar raglen dreigl tair blynedd a chaiff ei fonitro gan y gyfarwyddiaeth briodol, sy'n arwain ar ddysgu a datblygu. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ar sut y dylai gweithwyr ymdrin ag achosion diogelu sy'n gysylltiedig â'r strategaeth Prevent.

7.4 Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn cael hyfforddiant diogelu priodol ar y lefel briodol. Mae angen i reolwyr fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau chwythu'r chwiban a disgyblu ac achwyna a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd gweithwyr Gyrfa Cymru yn cael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o arwyddion posibl o safbwyntiau ac ymddygiadau eithafol. Bydd hyfforddiant a datlbygu yn cynnwys:

- Bydd gweithwyr newydd, sy'n ymuno â Gyrfa Cymru, yn cael hyfforddiant ymsefydlu ar adnabod ac ymateb i gamdriniaeth os yw'n briodol i'w rôl.
- Bydd pob gweithiwr a fydd yn gweithio ar sail un-i-un gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth, cydnabyddiaeth ac atgyfeirio Lefel 2.
- Bydd rheolwyr tîm a phob rheolwr llinell yn derbyn hyfforddiant Lefel 3 yn ymwneud â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

7.5 Yn ddibynnol ar rôl yr unigolyn ac yn dilyn rhestr wirio'r cwmni gan Adnoddau Dynol, efallai y bydd gofyn i weithwyr eraill dderbyn yr hyfforddiant hwn.

7.6 Dylai'r holl weithwyr a restrir uchod ymgymryd â hyfforddiant gloywi a diweddaru bob tair blynedd o leiaf. Dylai'r hyfforddiant hwn dynnu ar ganfyddiadau ymchwil newydd, arferion gorau a dysgu o brofiad, yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau ac yn cael ei addasu ar gyfer rôl/cyfrifoldebau'r grwpiau o weithwyr.

7.7 Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Datblygu Pobl.

### Grwpiau/Unigolion Eraill sy'n gweithio gyda Gyrfa Cymru.

7.8 Dylai unrhyw wirfoddolwyr/siaradwyr a gaiff eu defnyddio gan Gyrfa Cymru i gefnogi ei gwaith mewn canolfannau dysgu gadw at weithdrefnau diogelu'r ganolfan ei hun. Ni ddylai unrhyw wirfoddolwyr/siaradwyr ymgymryd â gweithgareddau heb oruchwyliaeth gyda grwpiau o ddysgwyr.

7.9 Fel arfer, ni fydd angen i gyflogwyr mewn lleoliadau profiad gwaith gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os bydd Gyrfa Cymru yn defnyddio cyflogwyr sy'n cynnig profiadau gwaith i ddysgwyr sy'n iau na'r oedran gadael ysgol, cedwir at y canllawiau a amlinellir ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. www.hse.gov.uk/youngpeople/workexperience.

7.10 Os yw Gyrfa Cymru yn darparu gweithgareddau lleoliad ar gyfer myfyrwyr coleg a phrifysgol sy’n ymgymryd â chymhwyster cynghori, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr sy’n debygol o gael cyswllt un-i-un â phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl gyflwyno eu datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gallant gychwyn ar eu lleoliad. Ni ddylai'r datgeliadau manylach hyn fod wedi eu gwneud cyn y dyddiad cau ar gyfer y cwrs.

7.11 Rhaid i unigolion sy’n cysgodi gweithwyr Gyrfa Cymru yn y gwaith gael eu goruchwylio bob amser ac ni ddylent gael mynediad un-i-un at blant, pobl ifanc ac oedolion, hyd yn oed os oes ganddynt wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

7.12 Nid yw Gyrfa Cymru yn is-gontractio unrhyw rhan o'i chylch gwaith gyda cwsmeriaid i ddarparwyr trydydd parti.

7.13 Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau ansawdd a gwerthuso ddangos bod ganddynt brosesau diogelu ar waith os ydynt yn ymgymryd ag unrhyw waith heb oruchwyliaeth gydag oedolion (e.e. mewn grwpiau ffocws). Nid oes unrhyw fathau eraill o waith wedi'i gontractio yn debygol o gynnwys gwaith heb oruchwyliaeth gydag unigolion.

### Defnydd o Ffotograffau a Delweddau Digidol o Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl.

7.14 Mae gan Gyrfa Cymru weithdrefnau sy’n ymwneud â defnyddio ffotograffau a delweddau o bobl ifanc ar waith i osgoi'r posibilrwydd y byddant yn cael eu camddefnyddio ar wefannau ac mewn cyhoeddiadau eraill. Rhaid i gyflogeion Gyrfa Cymru ac unrhyw un sy’n gweithredu ar ran Gyrfa Cymru yn y cyd-destun hwn gydymffurfio â’r gweithdrefnau hyn.

## 8. ADOLYGU’R POLISI.

8.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan Gyrfa Cymru yn flynyddol, neu’n amlach wedi i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth neu ganllawiau newydd. Y Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau sy’n gyfrifol am wneud hyn, mewn ymgynghoriad â phenaethiaid cyflenwi perthnasol.

**Atodiad 1:**

**Bod yn agored i niwed oherwydd safbwyntiau eithafol.**

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod ei dyletswydd i amddiffyn unigolion rhag unrhyw fath o safbwyntiau eithafol neu ideoleg a allai arwain atynt yn niweidio'u hunain neu eraill. Diffinnir safbwyntiau eithafol fel 'casgliad o syniadau a allai gyfiawnhau difenwad neu drais yn erbyn unigolion, grwpiau neu'r unigolyn ei hun'.

Ystyr agored i niwed yw rhywun a all gael ei anafu, sy'n anodd i amddiffyn, sy'n agored i ymosodiad moesol neu ideolegol.

Mae strategaeth Prevent yn rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth y DU, CONTEST. Y nod yw lleihau bygythiad terfysgaeth i'r DU drwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgwyr. Mae'n cynnwys eithafiaeth ddi-drais a'i nod yw ymyrryd ag unigolion rhag ymuno â grwpiau eithafol. Bydd angen i weithwyr sy'n ymgysylltu ag unigolion wybod sut i adnabod eithafiaeth a sut i atgyfeirio pryderon a chael cymorth i'r rhai sy'n agored i niwed ac mewn perygl o gael eu niweidio gan y safbwyntiau hyn.

Diffinnir eithafiaeth yn strategaeth Prevent 2011 Llywodraeth Ei Mawrhydi fel:

'Gwrthwynebiad lleisiol neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn, a pharch a goddefgarwch tuag at ffydd a chredoau gwahanol.

Mae eithafiaeth ddi-drais fel yr uchod, ond nid yw'n dreisgar.

**Atodiad 2: Dogfennaeth berthnasol.**

Polisïau a gweithdrefnau Gyrfa Cymru:

Gweithdrefnau Diogelu

Polisi Chwythu'r Chwiban

Polisi Urddas a Pharch

Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol

Gweithdrefnau Datgelu a Gwahardd:

Polisi Disgyblu ac Achwyn

Cod Ymddygiad – Safonau a Moeseg mewn Bywyd Cyhoeddus

Prevent review (publishing.service.gov.uk)

Ffurflenni Gyrfa Cymru:

Ffurflen rhoi cydsyniad i dynnu ffotograffau mewn digwyddiad

Ffurflen atgyfeirio SVG1

**Deddfwriaeth:**

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004 (legislation.gov.uk)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

**Canllawiau statudol:**

- Cadw dysgwyr yn ddiogel (2022)
- Revised Prevent duty guidance: for England and Wales (2023)
- Channel duty guidance: Protecting people susceptible to radicalisation. – reviewed 2023
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7 – Canllawiau Statudol: diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol

**Arweiniad defnyddiol.**

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu Gwybodaeth i Ddiogelu Plant ac Oedolion (taflen ffeithiau)
- Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiad polisi parhad dysgu
- Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu
- Disclosure & Barring Service: Regulated activity with children in Wales
- Disclosure & Barring Service: Regulated activity with adults in Wales

Ailddrafftiwyd y polisi hwn gan y Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau yn 2023. Wrth adolygu'r polisi hwn, ymgynghorwyd â'r canlynol, a ddarparodd fewnbwn ac adborth.

Nikki Lawrence, Prif Weithredydd, Gyrfa Cymru
Ruth Ryder, Cyfarwyddydd Adnoddau a Thrawsnewid, Gyrfa Cymru
Nerys Bourne, Cyfarwyddydd Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau (Uwch Swyddog Diogelu dynodedig), Gyrfa Cymru
Mandy Ifans, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Cyngor Cyflogaeth, Gyrfa Cymru
Mark Owen, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Gwasanaethau i Randdeiliaid, Gyrfa Cymru
Amie Field, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Gwasanaethau i Bobl Ifanc, Gyrfa Cymru
Emma Blandon, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Digidol a Chyfathrebu, Gyrfa Cymru
Denise Currell, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Datblygu Pobl, Gyrfa Cymru
Denise Evans, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth TGCh, Gyrfa Cymru
Will Piper, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Cyllid ac Ystadau, Gyrfa Cymru
Phil Bowden, Tim Uwch Rheoli, Pennaeth Ansawdd a Chynllunio, Gyrfa Cymru
Cyfreithwyr, Geldards
Cefnogaeth allanol, Claire Sharp (Uwch-swyddog Hyfforddi), Plant yng Nghymru

Dyddiad adolygu: Hydref 2024